Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

2 Mai 2019

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Jim Harra, Ail Ysgrifennydd Parhaol, Cyllid a Thollau EM

Annwyl Rebecca a Jim,

Cyfraddau Treth Incwm Cymru - codau treth Cymru

Drwy gydol ein gwaith craffu ar y broses o weithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio cael sicrwydd na fydd trethdalwyr Cymru yn wynebu'r un problemau ag a wynebwyd gan drethdalwyr yr Alban pan wnaethant drosglwyddo i Gyfraddau Treth Incwm yr Alban. Mae'n hanfodol bod gan fusnesau a threthdalwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar drethdalwyr a refeniw treth yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod problem gyda'r newid i Gyfraddau Treth Incwm Cymru, gan nad yw codau treth rhai unigolion sy'n byw yng Nghymru yn cynnwys y rhagddodiad 'C' newydd. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am ragor o fanylion, gan gynnwys natur a maint y broblem, a yw'r broblem yn un dechnegol ynteu'n ymwneud ag anawsterau adnabod, ac unrhyw effaith ar gasglu Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

Edrychaf ymlaen at ymateb prydlon gennych.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565